Lefel 3

MEINI PRAWF CYMERADWYO

Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

MAWRTH 2019

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	1
Strwythur y cymhwyster	2
Nodau ac amcanion y pwnc	3
Cynnwys y pwnc	4
Cynllun asesu	4
Deilliannau	5
Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo	5
Gofynion rhesymeg	5
Gofynion gweithredol	6
Atodiad A	8

Mae hon yn **Ddogfen Reoleiddio** o dan **Amod B7** o'r *Amodau Cydnabod Safonol (Mawrth 2017)*[1]: *Cydymffurfio â Dogfennau Rheoleiddio.*

[1] https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol/

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymhwyster Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion). Datblygwyd y rhain drwy waith ymgysylltu â rhanddeiliaid, a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws ac arolygon ar-lein. Mae'r meini prawf cymeradwyo hyn yn cynnwys y gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu manyleb a deunyddiau asesu cymhwyster Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion).

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio er mwyn helpu unigolion i symud ymlaen i gyflogaeth a/neu astudiaethau pellach ac astudiaethau lefel uwch.

Dylai'r cymhwyster hwn gael ei gynllunio i'w gyflwyno gan amrywiaeth o ddarparwyr dysgu, ar gyfer dysgwyr 16 oed a throsodd.

Pan fo'n briodol, dylai'r cymhwyster hwn alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu, llythrennedd, cymhwysedd digidol a rhifedd.

Daw'r meini prawf cymeradwyo yn y ddogfen hon i rym o fis Mawrth 2019 a chânt eu hadolygu yn 2022.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu ar gyfres newydd o gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant[2] i'w haddysgu ar raglenni dysgu a ariennir gan arian cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gyfres hon yn cynnwys y cymhwyster Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion.

Cyfyngir ar yr holl gymwysterau yn y gyfres am gyfnod o bum mlynedd o 1 Medi 2019 er mwyn sicrhau mai dim ond un fersiwn ohonynt sydd ar gael. Mae hyn yn golygu mai dim ond un corff dyfarnu a all ddyfarnu pob cymhwyster. Yn dilyn proses gaffael deg a thryloyw a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2017 a mis Awst 2017, mae Cymwysterau Cymru wedi llunio contract â chonsortiwm sy'n cynnwys City & Guilds of London Institute a CBAC i ddatblygu a chyflwyno'r holl gymwysterau yn y gyfres ar y cyd.

[2] http://qualificationswales.org/media/2534/230517-determination-to-restrict-hsc-final-w.pdf

Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

Dim ond cymhwyster sy'n bodloni'r holl ofynion a nodir yn y ddogfen hon, ynghyd â'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*[3] y bydd Cymwysterau Cymru yn ei gymeradwyo. Wrth ddatblygu'r cymwysterau i fodloni'r gofynion hyn, rhaid i gyrff dyfarnu ystyried *Fair Access by Design*[4] (cyhoeddiad Saesneg yn unig). Rhaid i'r corff dyfarnu a gomisiynwyd hefyd fodloni'r holl ofynion a nodir yn y *contract consesiwn* a ddyfarnwyd yn ystod camau datblygu, cymeradwyo, gweithredu a chyflwyno'r cymhwyster.

Rhaid i gynnwys pwnc y cymhwyster hwn ymwneud â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol priodol a'r cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (Oedolion).

Pan fo gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo Pwnc a nodir yn y ddogfen hon yn wahanol i'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*, y gofynion yn y ddogfen hon fydd drechaf.

Strwythur y cymhwyster

1. Rhaid i fanyleb Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) gynnig tystysgrif am gymhwyster o 240 o Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH) i ddysgwyr a bydd angen ei diffinio o ran Cyfanswm Amser Cymhwyso (TQT) a chredydau.

2. Mae gan y cymhwyster Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) gynnwys gorfodol a dewisol (Gweler Atodiad A). Rhaid i'r fanyleb ddangos yn glir pa gynnwys sy'n orfodol a pha gynnwys sy'n ddewisol.

3. Rhaid i'r canlynol ymddangos ar dystysgrifau fel teitl y cymhwyster:

Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion).

4. Rhaid i gynllun Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) sicrhau'r canlynol:

    4.1 y caiff nodau ac amcanion y pwnc eu hadlewyrchu yn yr asesiadau i alluogi dysgwyr i ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth;

    4.2 ei fod yn ategu dilyniant dysgwyr o gymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer.

[3] http://qualifications.wales/cymraeg/ein-gwaith/rheoleiddio-cyrff-dyfarnu/monitro-cyrff-dyfarnu/
[4] http://gov.wales/docs/dcells/publications/150727-fair-access-by-design-en.pdf

Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

5. Rhaid i fanyleb Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) ddynodi unrhyw reolau cyfuno sy'n gymwys i'r unedau dewisol.

6. Rhaid i fanyleb Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) gynnwys y datganiad canlynol:

   'Mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae'n ofynnol i ddysgwr eu cyflawni fel rhan o'r cymhwyster hwn yn adeiladu ar gynnwys y cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd. Argymhellir yn gryf y dylai dysgwr sy'n ymgymryd â'r cymhwyster hwn fod wedi cwblhau neu fod wrthi'n cwblhau'r cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (Oedolion). Noder ei bod yn ofynnol gan Gofal Cymdeithasol Cymru i unigolyn sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol feddu ar y cymwysterau canlynol:

   - *Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (Oedolion)*

     a

   - *Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)*

   er mwyn gweithio o fewn swyddi penodol. I gael rhagor o wybodaeth am y gofynion ar gyfer gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, cyfeiriwch at wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.'

Nodau ac amcanion y pwnc

7. Rhaid i Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) alluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth, eu hymddygiad, eu sgiliau a'u hymarfer o fewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol. Yn arbennig, dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn:

   7.1 deall yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n ategu iechyd a gofal cymdeithasol a'u rhoi ar waith;

   7.2 deall dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'u rhoi ar waith;

   7.3 hyrwyddo a chefnogi ymarfer effeithiol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol;

   7.4 ymwybodol o bolisïau allweddol yn y sector a deall sut mae'r rhain yn effeithio ar y broses o ddatblygu a chyflenwi gwasanaethau;

7.5 gweithio mewn partneriaeth ag unigolion, eu teuluoedd, gofalwyr ac amrywiaeth o weithwyr proffesiynol;

7.6 cymhwyso amrywiaeth o dechnegau datrys problemau;

7.7 myfyrio ar ymarfer er mwyn gwella'n barhaus;

7.8 defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y bo'n briodol i'w rôl.

Cynnwys y pwnc

8. Rhaid i gynnwys manyleb Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc.

9. Rhaid i fanyleb Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) gynnwys y cynnwys a nodir yn Atodiad A.

Cynllun asesu

10. Caiff cymhwyster Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) ei asesu drwy asesiad mewnol yn unig. Bydd yr asesiad:

10.1 yn cynnwys ystod o dasgau sy'n seiliedig ar ymarfer a bennir yn allanol ac a gaiff eu marcio'n fewnol, a phortffolio o dystiolaeth;

10.2 yr un mor heriol i bob dysgwr, beth bynnag yw'r asesiad a gymerir;

10.3 yn nodi'r math o dystiolaeth a faint o dystiolaeth i'w chasglu at ddibenion asesu.

11. Rhaid dangos tystiolaeth o bob deilliant dysgu ar gyfer y cynnwys gorfodol a'r cynnwys dewisol dan sylw fel rhan o'r asesiadau.

12. Rhaid i'r cynllun asesu sicrhau'r canlynol:

12.1 bod y meini prawf a'r gofynion ar gyfer yr ymarfer a gynhaliwyd, a'r trefniadau ar gyfer asesu'r ymarfer hwn, wedi'u nodi'n glir;

12.2 bod unrhyw amodau a ganiateir ar gyfer cynnal asesiadau drwy efelychu wedi'u nodi'n glir, gan gynnwys enghreifftiau o amgylchedd gwaith realistig.

Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

13. Rhaid i'r meini prawf marcio ddangos sut mae pob agwedd ar yr asesiad yn gysylltiedig â'r deilliannau dysgu.

Deilliannau

14. Caiff dysgwyr sy'n cwblhau'r holl asesiadau gofynnol yn llwyddiannus (gan fodloni unrhyw reolau cyfuno) dystysgrif.

Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo

15. Wrth gyflwyno cymhwyster i Cymwysterau Cymru i'w gymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu'r canlynol:

    15.1 dogfen fanyleb;

    15.2 dogfen esboniadol (dogfen resymeg) yn amlinellu'r rhesymeg dros nodweddion dylunio allweddol y cymhwyster arfaethedig a'u cydnawsedd â chanfyddiadau'r *Adolygiad Sector o Gymwysterau a'r System Gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys gofal plant a gwaith chwarae*[5].

Gofynion rhesymeg

16. Diben y ddogfen resymeg yw cynorthwyo'r broses o adolygu a chymeradwyo cymhwyster, ac ni fwriedir iddi gael ei chyhoeddi.

17. Rhaid i'r ddogfen resymeg esbonio'r canlynol:

    17.1 strwythur y cymhwyster, a'r rhesymau dros strwythuro'r cynnwys yn y ffordd honno;

    17.2 sut y caiff tasgau eu datblygu a'u mireinio dros amser;

    17.3 y strwythur asesu, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, nifer yr asesiadau, y dyraniad marciau a hyd yr asesiadau;

    17.4 sut y caiff y deilliannau dysgu eu dehongli, a sut y pennwyd gwasgariad y deilliannau dysgu ar draws yr asesiadau ac o fewn yr asesiadau;

[5] http://qualificationswales.org/qualifications/vocational-qualifications/sector-reviews/health-social-care-and-childcare/?lang=cy/

17.5 cynllun deunyddiau asesu enghreifftiol, gan gynnwys y math a'r amrywiaeth o dasgau asesu ym mhob rhan o'r cymhwyster a'u cydberthynas â'r deilliannau dysgu;

17.6 cynllun meini prawf marcio a sut y cânt eu defnyddio;

17.7 sut mae'r cymhwyster yn adlewyrchu cyd-destun Cymreig;

17.8 y broses a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymhwyster.

Gofynion gweithredol

18. Rhaid i'r fanyleb nodi'r gofynion gwybodaeth a chymhwysedd (pwnc ac asesu/sicrhau ansawdd) ar gyfer aseswyr, sicrhawyr ansawdd mewnol a sicrhawyr ansawdd allanol.

19. Rhaid i fanyleb y cymhwyster gynnwys gwybodaeth benodol am ofynion gweithredol, gan gynnwys:

19.1 cofrestriadau;

19.2 sicrhau ansawdd;

19.3 prosesau asesu allanol.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Ymholiadau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR

ymholiadau@cymwysteraucymru.org

Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

Atodiad A

Rhaid i fanyleb Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) gynnwys y cynnwys canlynol gyda deilliannau dysgu yn gysylltiedig â phob un. Mae hyn yn 100% o gyfanswm cynnwys y cymhwyster.

1. Hyrwyddo ymarfer craidd mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion)

Maes pwnc	**Maes is-bwnc**
1.1 Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol	- Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a fframweithiau - Dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau - Dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn - Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant - Cymryd risgiau cadarnhaol - Cydberthnasau cadarnhaol a ffiniau proffesiynol - Cyfathrebu - Y Gymraeg a diwylliant Cymru - Dulliau cadarnhaol o leihau arferion cyfyngol mewn iechyd a gofal cymdeithasol - Myfyrio
1.2 Iechyd a Llesiant	- Llesiant - Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant - Cymorth ym maes gofal personol ac ymataliaeth - Maeth a hydradu
1.3 Ymarfer Proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol	- Rôl a chyfrifoldebau'r gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol - Gweithio mewn partneriaeth - Gweithio mewn tîm - Ymdrin â gwybodaeth - Ymddygiad personol gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol - Datblygiad proffesiynol parhaus
1.4 Diogelu unigolion	- Fframweithiau deddfwriaethol ym maes

	Diogelu - Diogelu unigolion rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod - Ffactorau, sefyllfaoedd a gweithredoedd sy'n gallu arwain neu gyfrannu at niwed, camdriniaeth neu esgeulustod
1.5 Iechyd a diogelwch mewn iechyd a gofal cymdeithasol	- Iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith - Asesiadau risg iechyd a diogelwch - Diogelwch tân - Atal a rheoli haint - Diogelwch bwyd - Sylweddau peryglus - Diogelwch yn y lleoliad gwaith - Rheoli straen

2. Defnyddio asesiadau i ddatblygu cynlluniau personol

Deilliannau dysgu

1. Gwaith asesu a chynllunio gofal a chymorth
2. Defnyddio gwybodaeth asesu a chynlluniau gofal a chymorth i ddatblygu cynlluniau personol

3. Cydlynu gofal a chymorth i unigolion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain

Deilliannau dysgu

1. Cefnogi darparu gwasanaethau sy'n helpu unigolion i fyw yn eu cartref eu hunain
2. Hyrwyddo cydberthnasau da ag unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr

4. Hyrwyddo gofal a chymorth i unigolion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain

Deilliannau dysgu

1. Helpu unigolion i fyw yn eu cartrefi eu hunain

Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

2. Hyrwyddo cymorth i unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr yn ystod cyfnodau o newid a phontio
3. Hyrwyddo cymorth ar gyfer dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau a chanlyniadau cadarnhaol i unigolion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain
4. Hyrwyddo datblygu a defnyddio cynlluniau personol sy'n helpu unigolion i fyw yn eu cartrefi eu hunain er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol
5. Cynnal diogelwch ac arferion gwaith diogel

5. Darparu gofal a chymorth i unigolion sy'n byw mewn cartrefi gofal

Deilliannau dysgu

1. Rôl deddfwriaeth, a pholisïau, canllawiau a safonau cenedlaethol ar gyfer cartrefi gofal
2. Hyrwyddo cefnogi'r newidiadau a'r pontio a brofir gan unigolion
3. Hyrwyddo dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau
4. Hyrwyddo cymorth i unigolion gyflawni canlyniadau cadarnhaol
5. Hyrwyddo cefnogi cyfathrebu effeithiol
6. Cefnogi iechyd a llesiant unigolion mewn cartrefi gofal
7. Cefnogi gofal personol a rheoli ymataliaeth
8. Cefnogi gofal ardal briwiau pwyso
9. Cefnogi gofal lliniarol a gofal diwedd oes

6. Hyrwyddo cymorth i unigolion sy'n byw gyda dementia

Deilliannau dysgu

1. Canfyddiadau a safbwyntiau ynghylch dementia
2. Cefnogi iechyd a llesiant unigolion sy'n byw gyda dementia
3. Helpu unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr i addasu i ddiagnosis a byw gyda dementia
4. Hyrwyddo dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau

5. Helpu unigolion sy'n byw gyda dementia i gyflawni canlyniadau cadarnhaol
6. Helpu unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr i fyw bywyd bodlon gyda dementia

7. Cynorthwyo unigolion i ddefnyddio technoleg gynorthwyol electronig

Deilliannau dysgu

1. Hyder wrth ddefnyddio technoleg gynorthwyol electronig
2. Hawliau, gwerthoedd a thechnoleg gynorthwyol electronig
3. Cefnogi asesu ac adolygu technoleg gynorthwyol electronig
4. Systemau monitro ac ymateb o bell neu rithwir

8. Cynorthwyo unigolion i gyflawni eu canlyniadau ailalluogi

Deilliannau dysgu

1. Helpu unigolion a theuluoedd/gofalwyr i ddeall manteision gweithgareddau ail-alluogi
2. Hyrwyddo dulliau o ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n ei helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau ail-alluogi

9. Cynorthwyo unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau

Deilliannau dysgu

1. Defnyddio a chamddefnyddio sylweddau
2. Cyflenwi a chyfnewid cyfarpar chwistrellu
3. Ymyriadau i helpu unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau i gyflawni canlyniadau cadarnhaol
4. Canfyddiadau a safbwyntiau unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau
5. Problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau a welir ar yr un pryd
6. Rheoli sefyllfaoedd peryglus

10. Cynorthwyo unigolion sy'n byw mewn lleoliad i oedolion/o dan drefniadau cysylltu bywydau

Deilliannau dysgu

1. Rôl lleoliadau i oedolion/cysylltu bywydau yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol
2. Cefnogi cyflwyniad trefniant cysylltu bywydau
3. Cefnogi iechyd a llesiant drwy ddulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y person

11. Hyrwyddo cymorth i unigolion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth

Deilliannau dysgu

1. Canfyddiadau a safbwyntiau ynghylch anableddau dysgu ac awtistiaeth
2. Cefnogi dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau, cydberthnasau cadarnhaol a chyfrannu at y gymuned
3. Cefnogi proses gyfathrebu effeithiol
4. Cefnogi'r defnydd o waith cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a Chymorth Gweithredol
5. Rhywioldeb ac iechyd rhywiol
6. Cyflyrau iechyd a phwysigrwydd archwiliadau iechyd

12. Hyrwyddo dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad

Deilliannau dysgu

1. Sut mae deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, codau ymddygiad ac ymarfer yn sail i ddulliau cadarnhaol o leihau arferion cyfyngol a chefnogi cadarnhaol
2. Ffactorau a all ddylanwadu ar ymddygiad
3. Pwysigrwydd sicrhau bod unigolion yn lleisio barn ynghylch cyflawni canlyniadau sy'n cefnogi eu llesiant, ynghyd â chymryd rheolaeth dros hynny
4. Sut y gall gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar leihau'r angen am ymyriadau cyfyngol a chefnogi ymddygiad cadarnhaol

Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

5. Helpu unigolion i ymddwyn mewn ffyrdd cadarnhaol
6. Hyrwyddo cydweithio amlasiantaethol a gweithio mewn partneriaeth
7. Cefnogi unigolion ac eraill yn dilyn achosion o ymddygiad heriol
8. Adolygu dulliau gweithredu cadarnhaol a'r defnydd o arferion ac ymyriadau cyfyngol

13. Cefnogi unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl

Deilliannau dysgu

1. Salwch meddwl a'r ffactorau cysylltiedig
2. Dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau
3. Triniaeth a chymorth er mwyn helpu unigolion i wella
4. Helpu unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl i gyflawni canlyniadau cadarnhaol
5. Problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau a welir ar yr un pryd
6. Rheoli argyfyngau

14. Cefnogi unigolion â nam corfforol

Deilliannau dysgu

1. Y cysyniad o anabledd a nam corfforol
2. Dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau
3. Helpu unigolion â nam corfforol i gyflawni canlyniadau cadarnhaol

15. Cefnogi unigolion sydd wedi cael anaf i'r ymennydd

Deilliannau dysgu

1. Dull gweithredu seiliedig ar hawliau
2. Cael anaf i'r ymennydd a'r effeithiau posibl ar unigolion a'u teuluoedd

Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

3. Cefnogi proses gyfathrebu effeithiol
4. Cefnogi camau adsefydlu, ail-alluogi a chymorth parhaus i unigolion

16. Cyfrannu at gynorthwyo unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau

Deilliannau dysgu

1. Defnyddio a chamddefnyddio sylweddau
2. Cyfrannu at ymyriadau i helpu unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau i gyflawni canlyniadau cadarnhaol
3. Problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau a welir ar yr un pryd
4. Canfyddiadau a safbwyntiau unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau
5. Rheoli sefyllfaoedd peryglus

17. Cynorthwyo oedolion sy'n byw gydag epilepsi

Deilliannau dysgu

1. Epilepsi a'i effeithiau
2. Trin epilepsi
3. Gofalu am unigolion ag epilepsi
4. Cymorth a gofal i unigolion ag epilepsi

18. Monitro glwcos yng ngwaed y capilarïau

Deilliannau dysgu

1. Deddfwriaeth a pholisïau sy'n berthnasol i helpu i fonitro glwcos yng ngwaed y capilarïau
2. Monitro glwcos gwaed capilaraidd

19. Cymryd samplau gwaed gwythiennol gan oedolion

Deilliannau dysgu

1. Cymryd samplau gwaed gwythiennol gan oedolion
2. Paratoi samplau gwaed a gymerwyd gan oedolion i'w prosesu

20. Rhoi gofal i oedolion sy'n byw gyda chanser

Deilliannau dysgu

1. Datblygiad a symptomau canser mewn oedolion
2. Gofal a chymorth sydd ar gael i unigolion sydd wedi cael diagnosis o ganser
3. Gofal a chymorth sydd ar gael i unigolion sy'n dod dros ganser
4. Rhoi gofal a chymorth i unigolion sy'n goroesi canser

21. Gofal lliniarol a gofal diwedd oes i oedolion

Deilliannau dysgu

1. Polisïau a phrosesau sy'n ategu'r gwaith o ddarparu gofal diwedd oes
2. Dulliau person ganolog yn ymwneud â gofal diwedd oes
3. Pwysigrwydd cyfathrebu'n effeithiol a meithrin cydberthnasau cadarnhaol yn ystod gofal diwedd oes
4. Ystyr llesiant yng nghyd-destun gofal diwedd oes
5. Rhoi gofal diwedd oes a chymorth parhaus i unigolion yn ystod y broses o farw

22. Rhoi gofal stoma

Deilliannau dysgu

1. Gofal stoma
2. Sut i gynnal urddas unigolyn wrth roi gofal stoma
3. Ffactorau sy'n effeithio ar ddarpariaeth gofal stoma

Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

4. Rhoi gofal stoma i unigolion
5. Defnyddio arferion gofal person ganolog er mwyn help unigolion/ teuluoedd/gofalwyr i ofalu am eu stomata

23. Gofalu am glwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth

Deilliannau dysgu

1. Deall deddfwriaeth a ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt wrth ofalu am glwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth
2. Gwella a halogi clwyfau
3. Y gweithdrefnau a thechnegau ar gyfer trin a gorchuddio briwiau a chlwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth
4. Paratoi i orchuddio briwiau a chlwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth
5. Cyflawni triniaethau i orchuddio clwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth

24. Awtochwistrellu adrenalin

Deilliant dysgu

Helpu i ddefnyddio dyfeisiau awtochwistrellu adrenalin yn ddiogel

25. Hwyluso dysgu mewn grŵp

Deilliannau dysgu

1. Cynllunio a pharatoi sesiynau hyfforddi
2. Hwyluso sesiynau hyfforddi
3. Adolygu a gwerthuso sesiynau hyfforddi

26. Hybu iechyd

Deilliannau dysgu

1. Blaenoriaethau iechyd y cyhoedd a hybu iechyd yng Nghymru
2. Helpu unigolion a/neu eu teuluoedd/gofalwyr i newid eu ffordd o fyw a hybu eu hiechyd

27. Gweithio fel cynorthwyydd personol gydag unigolion

Deilliannau dysgu

1. Rôl taliadau uniongyrchol
2. Rôl cynorthwywyr personol

28. Cynorthwyo unigolion i gael gafael ar wasanaethau eirioli

Deilliannau dysgu

1. Fframweithiau deddfwriaethol ac egwyddorion allweddol sy'n ymwneud ag eiriolaeth
2. Rôl eiriolwyr annibynnol
3. Sut y gall eiriolaeth gynorthwyo unigolion
4. Helpu unigolion i gael cymorth eirioli

29. Helpu i ddefnyddio meddyginiaeth mewn lleoliadau gofal cymdeithasol

Deilliannau dysgu

1. Mathau cyffredin o feddyginiaeth a'u defnydd
2. Derbyn, storio a gwaredu cyflenwadau meddyginiaeth yn ddiogel
3. Cefnogi'r defnydd o feddyginiaeth

30. Cynorthwyo oedolion i reoli eu diabetes mellitus

Deilliannau dysgu

1. Diabetes mellitus a'r ffordd o'i reoli
2. Deall llesiant yng nghyd-destun gofal a chymorth i unigolion â diabetes
3. Pwysigrwydd cyfathrebu ag unigolion ac asiantaethau eraill
4. Cymryd camau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth gynorthwyo unigolion â diabetes
5. Deall y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant unigolion â diabetes

31. Cymryd mesuriadau ffisiolegol mewn oedolion

Deilliannau dysgu

1. Ffyrdd cytûn o gymryd mesuriadau ffisiolegol
2. Cymryd mesuriadau ffisiolegol

32. Darparu gofal i oedolion sy'n defnyddio cathetrau wrinol a leolir y tu mewn i'r corff

Deilliannau dysgu

1. Canllawiau cenedlaethol a lleol presennol ar ofalu am oedolion â chathetrau wrinol a leolir y tu mewn i'r corf
2. Gofalu am gathetrau wrinol
3. Helpu unigolion i ofalu am eu cathetr wrinol

33. Gofal am oedolion â Chlefyd Coronaidd y Galon, a'u cynorthwyo

Deilliannau dysgu

1. Canllawiau cenedlaethol a negeseuon iechyd y cyhoedd yn ymwneud â gofal oedolion â chlefyd coronaidd y gallon
2. Clefyd coronaidd y galon
3. Dadebru Cardio-Pwlmonaidd (CPR)

4. Helpu unigolion â chyflyrau coronaidd y galon

34. Cydnabod, uwchgyfeirio ac ymateb i ddirywiad corfforol acíwt

Deilliannau dysgu

1. Dirywiad acíwt, sepsis ac anaf acíwt i'r arennau, gan gynnwys pwysigrwydd adnabod yn gynnar, uwchgyfeirio, a thrin
2. Defnyddio sgiliau asesu, arsylwadau corfforol ac adnoddau sylfaenol i nodi dirywiad acíwt
3. Defnyddio dulliau haenu gwaith sylfaenol a dulliau cyfathrebu i ddechrau uwchgyfeirio'r broses ofal
4. Gwybod sut i ymateb neu helpu'r ymatebydd cyntaf i drin yr unigolyn sy'n dirywio'n acíwt yn syth

35. Cynorthwyo unigolion sydd â gofynion deietegol arbennig gyda'u maeth a'u hydradiad

Deilliant dysgu

Hyrwyddo maeth a hydradu cytbwys

36. Cynorthwyo unigolion i reoli dysffagia

Deilliannau dysgu

1. Dysffagia a'i effaith ar unigolion
2. Canllawiau ar ofal unigolion â dysffagia
3. Sut i helpu unigolion i reoli dysffagia
4. Helpu unigolion i reoli dysffagia

37. Cynnal electrocardiograffeg (ECG)

Deilliannau dysgu

1. Canllawiau presennol sy'n ymwneud ag electrocardiograffeg (ECG)
2. Cynnal ECG ar unigolion

38. Darparu gofal i oedolion â chyflyrau anadlol cronig, a rhoi cymorth iddynt

Deilliannau dysgu

1. Canllawiau cenedlaethol a negeseuon iechyd y cyhoedd yn ymwneud â gofal oedolion â chyflyrau anadlol cronig
2. Cyflyrau anadlol cronig
3. Dadebru Cardio-Pwlmonaidd (CPR)
4. Helpu unigolion â chyflyrau anadlol cronig

39. Darparu cymorth i unigolion sydd wedi cael strôc

Deilliannau dysgu

1. Strôc a phwl o isgemia dros dro (TIA) a'u heffaith ar unigolion
2. Rhoi cymorth i unigolyn a'i deulu/gofalwyr yn dilyn strôc

40. Cefnogi unigolion drwy fwydo gyda thiwb

Deilliannau dysgu

1. Canllawiau, polisïau a phrotocolau cyfredol sy'n ymwneud â bwydo gyda thiwb
2. Ymgymryd â thechnegau bwydo gyda thiwb

41. Ymateb i adweithiau anaffylactig

Deilliant dysgu

Ymateb yn ddiogel i adwaith anaffylactig

42. Cefnogi unigolion i reoli ymataliaeth

Deilliannau dysgu

1. Helpu unigolion i reoli eu hymataliaeth
2. Cefnogi unigolion ag anymataliaeth wrinol
3. Cefnogi unigolion ag anymataliaeth ymgarthol

43. Cefnogi unigolion o ran symud a lleoli

Deilliannau dysgu

1. Anatomeg a ffisioleg sy'n gysylltiedig â chodi a chario a symud a lleoli
2. Paratoi i gynorthwyo unigolion o ran symud a lleoli
3. Cynorthwyo unigolion o ran symud a lleoli

44. Cynorthwyo unigolion i barhau i allu symud o gwmpas a lleihau'r risg o gwympo

Deilliannau dysgu

1. Pwysigrwydd sicrhau bod unigolyn yn gallu parhau i symud o gwmpas
2. Lleihau'r perygl o gwympo
3. Helpu unigolion i gyflawni gweithgareddau symudedd yn unol â'u cynlluniau personol

45. Cefnogi unigolion sydd â nam ar y synhwyrau

Deilliannau dysgu

1. Mathau gwahanol o nam ar y synhwyrau a'r effeithiau posibl ar unigolion
2. Cynorthwyo unigolion sydd wedi colli eu golwg, eu clyw neu'r ddau

46. Cefnogi ymarfer diogelwch bwyd mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol

Deilliant dysgu

Bodloni gofynion diogelwch bwyd wrth drin a thrafod bwyd a diod

47. Cynorthwyo unigolion i reoli poen ac anesmwythyd

Deilliant dysgu

Helpu i leihau poen ac anesmwythyd

48. Cymryd darlleniadau llif allanadlol (PEFR)

Deilliannau dysgu

1. Canllawiau presennol ar gyfer cyflawni darlleniadau llif allanadlol (PEFR)
2. Cymryd darlleniadau llif allanadlol